

Tai yng Nghaerdydd

Nod Cyngor Caerdydd yw helpu pobl i ddod o hyd i gartref addas yn y ddinas. Yn anffodus, ar hyn o bryd, mae mwy o bobl yn chwilio am gartrefi yng Nghaerdydd nag sydd o eiddo ar gael.

Rydym yn gweithio gyda chymdeithasau tai, landlordiaid preifat a Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o dai yng Nghaerdydd.

Wrth edrych am dai mae hi'n bwysig eich bod chi'n ystyried pob opsiwn sydd ar gael. Gall hyn gynnwys:

- Rhentu gan y Cyngor
- Rhentu gan Gymdeithas Tai
- Rhentu gan landlord preifat
- Cynlluniau i bobl â chyflogau cymedrol i berchen ar dŷ
- Edrych tu allan i Gaerdydd i ddod o hyd i dai addas

Mae gan y Cyngor Bolisi Dyrannu sydd wedi ei gynllunio i helpu'r rheiny sydd ag arnynt yr angen mwyaf am dŷ. Mae'n rhoi gwell dewis i bobl ynghylch lle maent yn byw, a'r math o gartref sydd angen arnynt nhw yn y dyfodol. Y bwriad yw cadw pobl yn agos at eu teulu, ffrindiau, perthnasau a'u cymunedau. Rydym wedi paratoi pamffled

sy'n esbonio Polisi Dyrannu'r Cyngor yn fanylach. Cysylltwch ag Ymholiadau Tai i gael rhagor o fanylion.

I wneud cais am Dŷ Cyngor yng Nghaerdydd - bydd angen i chi gwblhau a dychwelyd ffurflen gais cartrefi sydd ar gael o'n Lleoliadau Gwasanaeth. Bydd ffurflenni cais yn cael eu hasesu yn ôl eu hangen.

Safleoedd Carafán Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd

Mae dau safle carafán preswyl i sipsiwn a theithwyr yng Nghaerdydd. Os hoffech wneud cais am le, cysylltwch ag Ymholiadau Tai i gael ffurflen gais i gael eich rhoi ar y rhestr aros.

Mae Perchnogaeth Tŷ Cost Isel yn gynllun sy'n helpu pobl na fyddent fel arall yn gallu fforddio tŷ. Gallwch wneud cais am y cynllun os ydych yn brynwr am y tro cyntaf ac wedi byw a/neu weithio yng Nghaerdydd am o leiaf 6 mis. Mae'r cynllun yn gweithredu ar sail rhannu ecwiti lle bydd angen i chi fel arfer ddod o hyd i 70% o gost eiddo drwy forgais neu gynilion. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Tîm Strategaeth Tai.

Trosglwyddo

Yn ystod eich tenantiaeth efallai y bydd angen eiddo o fath gwahanol arnoch chi e.e. efallai bod gennych fwy o blant a bod angen eich ystyried am ystafell wely ychwanegol

neu

Mae eich plant wedi tyfu ac wedi gadael cartref a'ch bod am symud i eiddo llai neu i gynllun tai gwarchod

neu

Rydych yn byw mewn fflat llawr uchel a'ch bod yn cael trafferth dringo grisiau a'ch bod am eich ystyried ar gyfer eiddo mwy addas.

Os hoffech drosglwyddo gallwch lenwi ffurflen gais, y gellir ei chael gan Swyddfa Ranbarth, Hyb neu drwy ffonio llinell Ymholiadau Tai.

Er mwyn Trosglwyddo

Rhaid i'ch cyfrif rhent fod yn glir
Rhaid i'ch cartref fod mewn cyflwr rhesymol a rhaid i'r holl ffitiadau fod yn gyfan ac yn bresennol

Rhaid i unrhyw welliannau neu newidiadau fod wedi cael caniatâd y Cyngor yn ysgrifenedig.

D.S. o dan amodau arbennig gallwn ganiatáu trosglwyddo ar ôl trafod gyda'ch Swyddog Tenantiaeth.

Asesir y ceisiadau yn unol â Pholisi Dyrannu'r Cyngor. Mae galw uchel i symud i rai ardaloedd ac i sicrhau ein bod yn dyrannu trosglwyddiadau yn deg, byddwn yn delio â phob cais yn unigol. Esbonnir hyn yn fanylach yn y Polisi Dyrannu.

Cyfnewid

Gall tenantiaid diogel yng Nghyngor Caerdydd ddefnyddio gwefan HomeSwapper am ddim, sy'n gadael i chi rannu eich manylion gyda bron i 200,000 o bobl. Cymeradwyir y cynllun gan dros 650 o landlordiaid cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig ac mae'n cynnwys oddeutu 80% o dir Cymru. Yn y flwyddyn ddiwethaf mae HomeSwapper wedi cynorthwyo dros 18,000 o denantiaid i symud tŷ. Mae'r cynllun yn hawdd cael mynediad ato, y cwbl sy'n rhaid i chi ei wneud yw cofrestru yn www.homeswapper.co.uk i ddefnyddio'r gwasanaeth. Os nad oes gennych gysylltiad â'r we adref, mae cyfrifiaduron gyda chysylltiad â'r we i'w cael os ymunwch â'ch llyfrgell leol. Wedi i chi gofrestru, bydd HomeSwapper yn chwilio am dai addas i chi – mae 9/10 o denantiaid yn cael llwyddiant ymhen 24 awr. Byddant hefyd yn eich hysbysu am dai eraill a allai fod yn addas i chi dros e-bost neu neges destun.

Mae HomeSwapper yn sefydliad annibynnol ac er ein bod yn ceisio sicrhau bod eu gwefan yn briodol, nid yw Cyngor Caerdydd yn gyfrifol am y cynnwys.